Cyllid & Thollau EM

Canllaw P11D 2010-11

Bydd y canllaw byr hwn yn eich helpu i gwblhau

- Ffurflenni P11D - *Datganiadau taliadau treuliau a buddiannau*
- Ffurflen P11D(b) - *Datganiad Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A.*

Gallwch lenwi a chyflwyno'r datganiadau ar-lein drwy ddefnyddio TWE Ar-lein i Gyflogwyr – Rhyngrwyd, neu Gyfnewidfa Data Electronig. Fe allwch ei chael yn haws ac yn gyflymach i gyflwyno ar-lein. Ewch i **www.hmrc.gov.uk/paye/exb**

Ceir gwybodaeth fwy manwl ynghylch llenwi'r ffurflenni

- ar y Rhyngrwyd, sy'n cynnwys amryw o gyfrifianellau i'ch helpu i gyfrifo'r symiau trethadwy. Gweler **www.hmrc.gov.uk/paye**
- yn y llyfrau
  - 480(2011) *Expenses and Benefits – a tax guide*
  - CWG2(2011) *Employer Further Guide to PAYE and NICs*
  - CWG5(2011) *Class 1A NICs on benefits in kind.*

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A

Mae'n ofynnol i gyflogwyr dalu cyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1A ar y rhan fwyaf o fuddiannau. Dynodir y rhain drwy gydol y canllaw hwn o dan adrannau sydd â phennawd brown a symbol **1A**.

Help ac arweiniad pellach

Yn ychwanegol at y canllaw byr hwn, mae nifer o lyfrynnau a Thaflenni Gwaith ar gael i'ch helpu i lenwi ffurflenni P11D a P11D(b). Am wybodaeth bellach, ffoniwch **0845 302 1489**.

Taflenni Gwaith P11D

Ceir Taflenni Gwaith i'ch helpu i gyfrifo cyfwerth mewn arian y buddiannau ar gyfer

- lle i fyw
- ceir a thanwydd ceir
- faniau
- benthyciadau di-log a benthyciadau llog isel
- treuliau adleoli
- taliadau lwfans milltiroedd a thaliadau ar gyfer teithwyr

Cyfraddau llog swyddogol

Mae ffurflen P11D(INT) yn rhoi manylion cyfraddau llog swyddogol a chyfraddau llog swyddogol cyfartalog ar gyfer 2008-09.

Gwybodaeth Bellach

Os cewch unrhyw anhawster wrth gwblhau ffurflenni P11D neu P11D(b) gallwch gael cyngor neu wybodaeth oddi wrth eich swyddfa Cyllid a Thollau EM. Neu ffoniwch Linell Gymorth y Cyflogwr ar **0845 302 1489**, rhwng 08:30 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Pryd bydd angen ffurflen P11D arnoch?

Yn ôl y gyfraith, ar ddiwedd bob blwyddyn dreth mae'n rhaid i chi roi manylion i Gyllid a Thollau EM am unrhyw daliadau treuliau, buddiannau a chyfleusterau a ddarperir i

- pob cyflogai neu gyfarwyddwr sy'n ennill ar gyfradd o £8,500 y flwyddyn neu fwy, a
- pob cyfarwyddwr sy'n ennill ar gyfradd o lai na £8,500 y flwyddyn, oni bai ei fod yn
  - cyfarwyddwr sy'n gweithio'n amser llawn heb unrhyw fudd arwyddocaol yn y cwmni, neu
  - cyfarwyddwr elusen neu gorff nad yw'n bodoli er mwyn gwneud elw.

Am fanylion ar sut i gyfrifo cyfradd flynyddol enillion cyflogai neu gyfarwyddwr gweler *Llyfryn 480 paragraff 1.7*.

Mae'n rhaid i chi hefyd gynnwys unrhyw daliadau treuliau, buddiannau neu gyfleusterau a ddarperir i aelodau o deulu neu gartref eich cyfarwyddwr neu gyflogai.

Yn y rhan fwyaf o achosion caiff 'teulu neu gartref' ei ddiffinio fel priod neu bartner sifil y cyflogai, meibion a merched a'u priod neu bartner sifil, ei r(h)ieni, gweision, dibynyddion, a gwesteion. *Gweler Llyfryn 480 paragraff 1.22.*

Defnyddiwch ffurflen P11D ar wahân ar gyfer pob cyfarwyddwr neu gyflogai perthnasol.

Mae'n rhaid i chi hefyd roi'r wybodaeth i bob cyfarwyddwr a chyflogai perthnasol.

Pryd na fydd angen ffurflen P11D arnoch?

Ni ddylech lenwi ffurflen P11D os nad oes taliadau treuliau neu fuddiannau i'w datgan ar gyfer unigolyn.

Goddefebau a chytundebau setliad TWE

Nid oes angen i chi ddangos ar ffurflen P11D y taliadau treuliau neu fuddiannau a gwmpesir gan

- cytundeb setliad TWE, neu
- goddefeb a roddwyd gan swyddog o CThEM.

Gweler Llyfryn 480 pennod 2.

Pryd bydd angen ffurflen P11D(b) arnoch?

Defnyddir y ffurflen P11D(b) i ddatgan symiau y CYG Dosbarth 1A rydych i'w talu am y flwyddyn.

Rhaid i chi lenwi a llofnodi ffurflen P11D(b) os ydych yn atebol i ddatgan unrhyw daliadau treuliau neu fuddiannau ar ffurflen P11D.

Os nad ydych yn derbyn ffurflen, neu os oes angen ffurflen newydd arnoch, cysylltwch â'ch swyddfa Cyllid a Thollau EM.

Rhennir ffurflen P11D(b) yn bedair adran:

Adran 1 yw'r datganiad o'r CYG Dosbarth 1A sy'n ddyledus ar gyfer y flwyddyn.
Gweler Llyfryn CWG5(2011) paragraff 14.

Adran 2 yw'r datganiad o'r CYG Dosbarth 1A a threuliau a buddiannau.

Mae **Adran 3** yn rhoi nodiadau pwysig ar gyfer llenwi'r ffurflen.

Diben **Adran 4** yw gwneud addasiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyfanswm y buddiannau sy'n atebol i CYG Dosbarth 1A fel y dangosir ar ffurflenni P11D.
Gweler Llyfryn CWG5(2011) paragraff 18.

CYFFREDINOL

Swm a dalwyd neu y didynnwyd treth ohono

Yn y blychau gyda'r pennawd hwn ar y ffurflen P11D nodwch unrhyw symiau a dalwyd gan y cyfarwyddwr neu gyflogai a/neu unrhyw symiau y didynnwyd treth ohonynt o dan TWE. Bydd angen i chi wneud addasiad cyfatebol i gyfanswm y buddiannau a gofnodwyd ar ffurflen P11D(b) os nodwch swm y didynnwyd treth ohono o dan TWE lle mae'r buddiant yn atebol i CYG Dosbarth 1A.

Atodlenni a Rhestrau

Gweler Llyfryn 480 paragraff 25.6

Pan nad oes digon o le ar ffurflen P11D i roi'r holl wybodaeth berthnasol atodwch atodlen ar wahân.

Effaith TAW

Gweler Llyfryn 480 paragraff 25.12

Cynhwyswch gyfanswm llawn y TAW ar ffurflen P11D p'un a ellir ei adennill yn llawn neu'n rhannol gennych chi oddi wrth CThEM ai peidio.

Cosbau

Gweler Llyfryn 480 paragraffau 25.16 a 25.17
CWG5(2011) paragraff 25

Ceir cosbau am fethu â chwblhau ffurflenni treth, neu am gwblhau ffurflenni P11D a P11D(b) yn dwyllodrus neu'n esgeulus.

Y dyddiad cau ar gyfer y ffurflen P11D a P11D(b) ar gyfer 2010-11 yw 6 Gorffennaf 2011.

A Asedion a drosglwyddir (ceir, eiddo, nwyddau neu asedion eraill) 1A

Gweler Llyfryn 480 pennod 6

Nodwch, fel y bo'n berthnasol

- gwerth marchnad yr ased ar ddyddiad y trosglwyddiad, neu
- ffigur wedi'i seilio ar y gost ychwanegol i chi.

B Taliadau a wnaed ar ran y cyflogai

Gweler Llyfryn 480 pennod 26

Nodwch unrhyw symiau y dylai eich cyflogai fod wedi'u talu, ond y gwnaethoch chi eu talu yn lle hynny.

Treth ar daliadau tybiannol

Mae TWE yn gymwys i incwm o gyflogaeth a ddarperir ar ffurf taleb ariannol, neu ased y gellir ei gyfnewid yn hawdd, neu dalebau a thocynnau credyd a ddefnyddir i brynu asedion o'r fath neu y gellid eu cyfnewid i arian parod yn hawdd.

Mae TWE hefyd yn berthnasol i incwm o gyflogaeth a delir gan ganolwr y cyflogwr. Nodwch y dreth ar daliadau tybiannol o'r fath nad adenillwyd oddi wrth y cyfarwyddwr/cyflogai o fewn 90 diwrnod o bob taliad tybiannol.

C Talebau a chardiau credyd

Nodwch gyfanswm

- y gost i chi o ddarparu unrhyw dalebau (gan gynnwys tocynnau tymor) y gellir eu cyfnewid am arian, nwyddau neu wasanaethau
- unrhyw gost ychwanegol i chi wrth ddarparu'r arian, nwyddau neu wasanaethau y cyfnewidir y talebau amdanynt
- yr holl dreuliau a thaliadau eraill a dalwyd drwy ddefnyddio cardiau credyd a ddarparwyd gennych, ar wahân i
  - treuliau mewn cysylltiad uniongyrchol â'r car (ceir) yn adran F
  - treuliau sy'n fwy perthnasol i Adran N.

Peidiwch â chynnwys unrhyw dalebau, megis talebau ariannol, sydd wedi'u trethu o dan TWE (gweler adran B uchod).

D Lle i fyw 1A

Gweler Llyfryn 480 pennod 21

Nodwch gyfwerth mewn arian y lle i fyw a ddarperir ar gyfer y cyfarwyddwr neu gyflogai neu ei deulu/theulu neu aelwyd yn sgîl y gyflogaeth.

Y gwerth i'w ddefnyddio wrth gyfrifo'r cyfwerth mewn arian yw'r gwerth gros ar gyfer trethi a oedd yn berthnasol cyn i'r Dreth Gymunedol ddod i rym. Os yw'r lle byw wedi'i rentu, defnyddiwch swm y rhent sy'n daladwy (gan gynnwys unrhyw swm a briodolwyd mewn perthynas â phremiwm prydles) yn hytrach na'r gwerth trethiannol gros. Os nad oedd gan yr eiddo werth trethiannol gros, defnyddiwch eich amcangyfrif o beth fyddai'r gwerth trethiannol gros petai'r trethi eiddo wedi parhau. Mae rheolau gwahanol yn berthnasol yn yr Alban *gweler Llyfryn 480 paragraff 21.9.*

Os oedd cyfanswm cost y lle i fyw ac unrhyw welliannau yn llai na £75,000, y cyfwerth mewn arian fydd yr uchaf o'r gwerth gros ar gyfer trethi neu'r rhent a dalwyd gan y cyflogwr, llai unrhyw rent a delir gan y cyflogai. *Gweler Llyfryn 480 paragraffau 21.13-21.15 ar gyfer sut i gyfrifo'r buddiant os oes premiwm prydles yn daladwy.*

Os costiodd y lle i fyw fwy na £75,000 (gan gynnwys gwelliannau) *gweler Llyfryn 480 paragraffau 21.11 – 21.13 i weld sut i gyfrifo'r buddiant.*

Mae gwerth lle i fyw wedi'i eithrio rhag treth a CYG Dosbarth 1A mewn rhai amgylchiadau. Os yw gwerth y lle i fyw wedi'i eithrio, peidiwch â rhoi ffigur cyfwerth mewn arian ar y P11D. *Gweler Llyfryn 480 paragraffau 21.2 – 21.3.*

Os gwnaethoch dalu rhai o filiau'ch cyflogai (megis gwres a golau) yn ogystal â darparu lle i fyw iddynt neu os gwnaethoch ddarparu buddiannau ategol (megis celfi) dangoswch y rhain ar y P11D yn adran M ar gyfer 'eitemau eraill', p'un a yw gwerth y lle i fyw ei hun wedi'i eithrio rhag treth a CYG Dosbarth 1A ai peidio.

- Os oedd y contract rhyngoch chi a'r cyflenwr, rhowch fanylion y buddiant yn y blwch brown.
- Os gwnaeth y cyflenwr gontractio gyda'r cyflogai yn uniongyrchol, rhowch fanylion y buddiant yn y blwch **glas**. *Gweler Llyfryn 480 paragraffau 21.17 – 21.22.*

E Taliadau lwfans milltiroedd/ taliadau ar gyfer teithwyr

Gweler Llyfryn 480 pennod 16

Nodwch yr hyn sydd dros y swm a awdurdodwyd ar gyfer y naill a'r llall, sydd wedi'i eithrio rhag treth.

Ar gyfer taliadau lwfans milltiroedd, y swm a awdurdodir yw'r nifer o filltiroedd a deithiwyd ar fusnes (heblaw fel teithiwr) wedi'i luosi â'r gyfradd (cyfraddau) briodol ar gyfer y math o gerbyd a ddefnyddiwyd – gweler y tabl isod. Gellir gwneud taliadau lwfans milltiroedd dim ond ar gyfer siwrneiau a wnaethpwyd yng ngherbyd y cyflogai ei hun.

Ar gyfer taliadau ar gyfer teithwyr, y swm a awdurdodir yw'r nifer o filltiroedd a deithiwyd ar fusnes mewn car neu fan y cludwyd teithiwr ynddo ac y gwneir taliadau ar gyfer teithwyr ar ei gyfer, wedi'i luosi â 5c y filltir am bob teithiwr. Gellir gwneud taliadau ar gyfer teithwyr am gar neu fan cwmni yn ogystal â cherbyd y cyflogai ei hun.

Math o gerbyd	Y 10,000 milltir cyntaf ar fusnes yn 2010-11	Pob milltir ar fusnes dros 10,000 yn 2010-11
Car neu Fan	40c	25c
Beic modur	24c	24c
Beic	20c	20c

F Car a thanwydd ceir 1A

Buddiant car

Gweler Llyfryn 480 penodau 11, 12, 15 ac atodiad 1

Rhowch fanylion y ceir a oedd ar gael ar gyfer defnydd preifat a chyfanswm y buddiant car.

Fel arfer, pris sylfaenol y car yw y pris sylfaenol yn y DU ar y diwrnod cyn ei gofrestru gyntaf, gan gynnwys TAW, treth car (lle bo hynny'n berthnasol), costau dosbarthu a phlatiau rhif. Os nad oedd gan y car bris sylfaenol pan gafodd ei gofrestru gyntaf, defnyddiwch y pris tybiannol. Dyma'r pris y gellid yn rhesymol disgwyl iddo fod yn bris sylfaenol y car pe bai gwneuthurwr, mewnforiwr neu ddosbarthwr y car wedi cyhoeddi pris sylfaenol ar gyfer car cyfatebol am werthiant masnachol unigol yn y DU.

Rhaid cynnwys ychwanegiadau ar eu pris sylfaenol gan gynnwys TAW a chostau gosod a dosbarthu:

- unrhyw ychwanegiadau dewisol gyda'r car pan oedd ar gael i'r cyfarwyddwr/cyflogai am y tro cyntaf, p'un a oeddent ar gael ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn dreth hon ai peidio, a
- unrhyw ychwanegiadau i'r car ar ôl iddo fod ar gael i'r cyflogai am y tro cyntaf, cyn belled â'u bod wedi'u hychwanegu ar ôl 31 Gorffennaf 1993 a bod ganddynt bris o £100 neu fwy.

Caiff cyfraniadau cyfalaf (taliadau a wnaed gan y cyfarwyddwr/cyflogai tuag at gost y car ac ychwanegiadau) eu tynnu o bris y car ac ychwanegiadau (uchafswm y didyniad £5,000).

Mae'r ffigur hwn yn cael ei luosi â'r 'ganran briodol' i roi'r buddiant car am y flwyddyn dreth lawn. Mae'r ganran briodol ar gyfer ceir a gofrestrwyd ar neu ar ôl 1 Ionawr 1998 yn dibynnu ar allyriant carbon deuocsid (CO_2) y car a'r math o danwydd a ddefnyddir. Mae'n **rhaid** i chi nodi'r llythyren briodol o'r tabl isod i ddynodi'r math o danwydd a ddefnyddir ym mhob car.

Llythyren sy'n cyfateb	Disgrifiad o'r math o danwydd neu bŵer
P	Petrol
D	Disel, car heb fod yn cydymffurfio â safonau allyriant Ewro IV
L	Disel, car yn cydymffurfio â safonau allyriant Ewro IV
E	Car allyriant sero (un na all, o dan unrhyw amgylchiadau, allyrru CO_2 o'i yrru) yn cynnwys trydan
H	Hybrid Trydan (cyfuniad o injan betrol a modur trydan)
B	Nwy yn unig neu deu-danwydd gyda ffigur allyriant CO_2 cymeradwy ar gyfer **nwy** pan gofrestrwyd gyntaf (sy'n rhaid bod ar neu ar ôl 1 Ionawr 2000)
G	Car wedi'i gynhyrchu i allu rhedeg ar E85 (cymysgedd o betrol ac o leiaf 85% bioethanol)
C	Trawsnewidiad a phob car deu-danwydd arall gyda ffigur allyriant CO_2 cymeradwy ar gyfer **Petrol** yn unig pan gofrestrwyd gyntaf

Ar gyfer ceir a gofrestrwyd cyn 1 Ionawr 1998 a cheir a gofrestrwyd ar neu wedi'r dyddiad hwn heb ffigur allyriant CO_2 cymeradwy, caiff y canran briodol ei seilio ar faint yr injan fel isod.

Maint yr injan	Cofrestrwyd cyn 1/1/98	Cofrestrwyd ar ôl 1997 heb ffigur CO_2 cymeradwy*
0 – 1400cc	15%	15%
1401cc - 2000cc	22%	25%
dros 2000cc	32%	35%
ceir gydag injan dro	32%	35%

*Noder: bydd nifer fechan o geir heb ffigur allyriant CO_2 cymeradwy. Bydd y rhain yn debygol o fod yn geir anghyffredin neu'n rhai unigyw, neu'n geir a fewnforiwyd o du allan i'r Undeb Ewropeaidd. Mae atodiadau a gostyngiadau am y math o danwydd yn briodol i'r ceir hyn hefyd, ond nid ar gyfer y rhai a gofrestrwyd yn gyntaf cyn 1998.

Os nad oedd y car ar gael am ran o'r flwyddyn caiff y buddiant car ei ostwng yn gyfatebol ar gyfer y car hwnnw, a chaiff unrhyw daliadau gan y cyfarwyddwr/cyflogai ar gyfer defnydd preifat eu didynnu wedyn.

Ceir manylion llawn, gan gynnwys y rheolau gwahanol sydd ar gyfer cyfrifo buddiant ceir sy'n rhedeg ar danwydd amgen a cheir clasurol, ym *Mhennod 12 o'r Llyfryn 480*. Mae'n cynnwys y rheolau cyffredin ar bennu prisiau at ddibenion treth, dod o hyd i'r ffigur allyriant CO_2 cymeradwy a phenderfynu'r ganran briodol. Mae hefyd yn egluro'r rheolau arbennig ar gyfer gyrwyr anabl.

Buddiant Tanwydd car

Gweler Llyfryn 480 pennod 13

Ni fydd buddiant yn codi os

- darparwyd tanwydd ar gyfer teithio busnes yn unig, neu
- oedd yn ofynnol i'r cyfarwyddwr/cyflogai dalu am gost lawn y tanwydd a ddefnyddiwyd at ddibenion teithio preifat (gan gynnwys teithio rhwng y gwaith a gartref) ac y gwnaeth hynny mewn gwirionedd, neu
- talwyd lwfans milltiroedd a oedd yn talu dim mwy na chost y tanwydd a ddefnyddiwyd ar gyfer teithio busnes. Os talwyd lwfans a oedd yn talu am gostau tanwydd ar gyfer teithio preifat, er enghraifft rhwng y gwaith a gartref, bydd buddiant yn codi.

Os tynnir y ddarpariaeth tanwydd am ddim yn ôl, caiff y buddiant ei ostwng mewn cyfrannedd i'r nifer o ddyddiau pan oedd y car ar gael ar ôl y dyddiad y'i tynnwyd yn ôl. Nid oes gostyngiad os adferwyd y tanwydd am ddim yn hwyrach yn y flwyddyn.

Nodwch gyfanswm y buddiant tanwydd car ar gyfer yr holl geir sydd ar gael. Cofiwch fod angen nodi'r math o danwydd/pŵer p'un ai yw codiant buddiant tanwydd car yn gymwys ai peidio.

G Faniau a thanwydd faniau 1A

Buddiant Fan

Y codiant ar gyfer buddiant fan ar gyfer 2010-11 yw £3,000. Os oes dau neu fwy o gyfarwyddwyr/ gyflogeion yn rhannu defnydd preifat o'r fan, dylid gostwng y tâl safonol ar sail deg a rhesymol. Os yw'r cyflogeion sy'n rhannu'r fan yn aelodau o'r un teulu neu aelwyd a bod un ohonynt mewn cyflogaeth wedi'i heithrio, dylid diystyru'r ffaith fod y fan ar gael i'r person hynny pan wneir y gostyngiad am rannu ar gyfer tâl safonol y cyflogai arall/cyflogeion eraill.
Gweler **www.hmrc.gov.uk/vans**

Buddiant tanwydd fan

Gweler Llyfryn 480 pennod 13

Y codiant ar gyfer tanwydd fan ar gyfer 2010-11 yw £550. Codir hyn ar bob fan pan ddarperir unrhyw danwydd ar gyfer defnydd preifat a bod y buddiant fan (cyn unrhyw ostyngiadau) yn fwy na £0. Ar wahân i hyn, a'r dull o ddatgan y buddiant tanwydd fan, mae'r rheolau o dan 'Buddiant Tanwydd Car' yn adran F yn gymwys i fuddiant tanwydd fan.

H Benthyciadau di-log a benthyciadau llog isel 1A

Gweler Llyfryn 480 pennod 17

Nid oes rhaid i chi ddatgan benthyciadau a ddefnyddiwyd yn gyfan gwbl at ddibenion cymwys ar ffurflen P11D. *(Er mwyn gweld a yw benthyciad yn un cymwys, darllenwch Lyfryn 480 atodiad 5).*

Nodwch y cyfwerth mewn arian ar gyfer pob benthyciad anghymwys ar wahân. Ond os ydych yn gwmni caeëdig sy'n rhoi benthyciadau i gyfarwyddwr gallwch ddewis trin benthyciadau o'r fath sydd yn yr un arian cyfred ac sy'n ddyledus ar yr un adeg fel un benthyciad. Rydych yn gwneud y dewis drwy ddangos y benthyciadau fel un benthyciad ar ffurflen P11D. Os gwnewch unrhyw ddewis bydd y cyfarwyddwr yn rhwymedig iddo.

Nodwch fanylion y benthyciadau a wnaed i, neu a drefnwyd ar gyfer cyfarwyddwr/ cyflogai (neu unrhyw un o'i berthnasau/ pherthnasau) lle na thalwyd unrhyw log neu pan oedd swm y llog a dalwyd yn llai na'r llog a fyddai'n daladwy ar y gyfradd swyddogol *(gweler Llyfryn 480 atodiad 4)*. Ar gyfer benthyciadau nad ydynt mewn punnoedd nodwch yr arian cyfred. Mae gan ffurflen P11D(INT) fanylion am y cyfraddau swyddogol a gellir ei harchebu o Linell Archebu y Cyflogwr.

Cynhwyswch y buddiannau 'benthyciad tybiannol' blynyddol o dan Adran 446S Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 mewn perthynas â chyfranddaliadau a ddaeth i feddiant y cyfarwyddwr/cyflogai ar werth rhy isel a chyfranddaliadau y talwyd amdanynt yn rhannol. Peidiwch â chynnwys cliriadau o dan adran 446U ar gyfer benthyciadau tybiannol o'r fath. Bydd angen dangos y rhain ar wahân ar ddatganiad y cyflogwr, ffurflen 42. Am fwy o wybodaeth gweler

- *Llyfryn 480 pennod 23*
- **www.hmrc.gov.uk/shareschemes**

Os gwyddoch nad yw'r cyfanswm sydd heb ei dalu ar y benthyciadau i gyd, neu ar y benthyciadau anghymwys i gyd yn uwch na £5,000 yn 2010-11, dylech anwybyddu benthyciadau o'r fath wrth gwblhau adran H ffurflen P11D.

Mae manylion diweddaraf y gyfradd llog swyddogol (yn cynnwys y gyfradd llog cyfartalog ar gyfer bob blwyddyn) ar gael ar wefan CThEM.

Ewch i **www.hmrc.gov.uk/rates/interest-beneficial.htm**

I Triniaeth neu yswiriant meddygol preifat 1A

Nodwch gost yr holl dreuliau meddygol a deintyddol a drefnwyd ac a dalwyd gennych a'r holl bremiymau a dalwyd fel yswiriant ar gyfer triniaeth o'r fath.

Os gwnaethoch dalu treuliau meddygol neu ddeintyddol, neu yswiriant ar gyfer triniaeth o'r fath, a drefnwyd gan eich cyflogai, nodwch y swm a dalwyd gennych yn Adran B.

J Taliadau treuliau a buddiannau adleoli cymwys 1A

Gweler Llyfryn 480 pennod 5 ac atodiad 7
CWG5(2011) paragraff 32

Nodwch y gormodedd dros £8,000 o gyfanswm yr holl

- taliadau treuliau (y swm gros)
- buddiannau (y gost i chi fel y cyflogwr llai unrhyw beth a dalwyd tuag at y gost gan y cyfarwyddwr/cyflogai), a
- lle i fyw a ddarperir.

Taliadau treuliau a buddiannau cymwys yw'r rheiny

- sydd wedi'u heithrio, *gweler Llyfryn 480 atodiad 7*, ac
- a delir erbyn y 'diwrnod perthnasol' ac sydd yn bodloni'r amodau cymwys eraill *(Gweler llyfryn 480 pennod 5)*.

Mae costau wedi'u heithrio yn cynnwys llawer o'r costau adleoli arferol, megis ffioedd gwerthwr tai a ffioedd cyfreithiol, treth stamp, ymweliadau chwilota am dai a chostau symud.

Os cewch anhawster wrth bennu gwerth unrhyw fuddiannau at ddibenion cyfrifo'r gormodedd dros £8,000, ymgynghorwch â'ch Swyddfa Cyllid a Thollau EM gyda'r manylion cyn i chi gwblhau'r ffurflen P11D.

Cofiwch fod y terfyniad o £8,000 yn berthnasol ar gyfer yr adleoliad cyfan nid dim ond y treuliau cymwys a'r buddiannau ac ati a ddarparwyd eleni. Os oedd eitemau cymwys ar gyfer y cyfarwyddwr/cyflogai hwn y llynedd, dylech eu cynnwys wrth weithio allan a oes gormodedd dros £8,000.

Ar gyfer costau adleoli anghymwys, gweler flychau M ac N.

K Gwasanaethau a ddarperir 1A

Nodwch gost ychwanegol unrhyw wasanaethau a ddarperir lle mae'r contract rhyngoch chi a chyflenwr y gwasanaeth.

Ni chodir tâl ar rai gwasanaethau a ddarperir gan y cyflogwr (naill ai ar eiddo y mae'r cyflogwr yn ei ddal neu rywle arall) pan fydd y defnydd preifat o'r gwasanaeth yn achlysurol yng nghyd-destun ei ddefnyddio gan y cyflogai wrth gyflawni ei ddyletswyddau/ dyletswyddau. *Gweler Llyfryn 480 pennod 5*.

L Asedion a oedd ar gael i'r cyflogai 1A

Gweler Llyfryn 480 paragraff 6.7
CWG5(2010) paragraff 13

Nodwch werth blynyddol defnyddio'r ased (neu'r rhent neu'r tâl llogi a godwyd os oedd hynny'n uwch).

Ni chodir tâl ar rai asedion a ddarperir gan y cyflogwr (naill ai ar eiddo y mae'r cyflogwr yn ei ddal neu rywle arall) pan fydd y defnydd preifat o'r ased yn achlysurol yng nghyd-destun ei ddefnyddio gan y cyflogai wrth gyflawni ei ddyletswyddau/ dyletswyddau. Ni chaiff rhai mathau o fuddiannau, megis defnydd o gerbydau (gan gynnwys cychod ac awyrennau), eu cynnwys yn yr eithriad hyn.
Gweler Llyfryn 480 pennod 5.

Offer a ddarperir ar gyfer cyflogeion ag anabledd

Nid oes buddiant trethadwy os yw cyflogwr yn darparu offer (er enghraifft, cadair olwyn neu declyn clywed) ar gyfer cyflogai ag anabledd i alluogi'r cyflogai i gymryd neu gadw gwaith, a phan fydd y cyflogai hefyd yn defnyddio'r offer ar gyfer defnydd preifat sylweddol.

M Eitemau eraill 1A

Nodwch y buddiannau canlynol yn y blwch brown gyda'r dynodydd Dosbarth 1A

Tanysgrifiadau

Gweler Llyfryn CWG5(2010) paragraff 30 a Llyfryn 480 paragraff 25.15

Nodwch fanylion ffioedd a thanysgrifiadau a drefnwyd ac a dalwyd gennych chi neu ar eich rhan. Dylech gynnwys tanysgrifiadau cychwynnol a blynyddol i glybiau sy'n darparu gwasanaethau hamdden neu weithgareddau chwaraeon ac ati.

Gweler adran N os oedd y ffi neu danysgrifiad wedi

- ei drefnu gan y cyflogai ac wedi'i dalu gennych chi neu ar eich rhan, neu
- ei dalu i gorff proffesiynol neu gymdeithas ddysgedig mewn perthynas â'r gyflogaeth.

Cymorth addysgol

Gweler Llyfryn 480 pennod 18

Nodwch gost y cymorth addysgol a ddarparwyd lle mae'r contract rhyngoch chi a darparwr y buddiant. Dylech gynnwys gwerth ysgoloriaethau a ddyfernir i blant oherwydd cyflogaeth eu rhieni.

Peidiwch â chynnwys taliadau perthnasol ar gyfer cyrsiau ail-hyfforddi cymwys (fel y'u diffinnir yn Adran 311, ITEPA 2003).

Buddiannau a thaliadau treuliau adleoli anghymwys

Gweler Llyfryn CWG5(2011) paragraff 32

Buddiannau

Nodwch yr holl fuddiannau adleoli (y gost i chi fel cyflogwr llai unrhyw beth a dalwyd tuag at y gost gan y cyflogai)

- nad ydynt wedi'u heithrio (nas rhestrir yn *Llyfryn 480 atodiad 7*), neu
- nad ydynt wedi'u talu erbyn y 'diwrnod perthnasol' neu sy'n methu â bodloni un o'r amodau cymhwyso eraill. *Llyfryn 480 pennod 5*

Os cewch anhawster wrth bennu gwerth unrhyw fuddiannau, ymgynghorwch â'ch swyddfa Cyllid a Thollau EM gyda'r manylion cyn i chi gwblhau'r P11D.

Treuliau

Dylech gynnwys yma unrhyw daliadau treuliau adleoli (symiau gros llai unrhyw swm y didynnir treth ohono), sy'n dreuliau wedi'u heithrio (a restrir yn *Llyfryn 480 atodiad 7*) ond a dalwyd ar ôl y 'diwrnod perthnasol' neu sy'n methu â bodloni un o'r amodau cymhwyso eraill (*Llyfryn 480 pennod 5*).

Dylid nodi treuliau adleoli anghymwys nad ydynt yn dreuliau wedi'u heithrio (nas rhestrir yn *Llyfryn 480 atodiad 7*) yn Adran N.

Ni fydd benthyciad pontio buddiol a roddir i gyflogai fel rhan o becyn adleoli yn gymwys ar gyfer rhyddhad o dan Adran 271 ITEPA 2003. Ond gallai rhywfaint o ryddhad arall fod yn ddyledus i'r cyfarwyddwr/cyflogai o dan Adran 288 ITEPA 2003 os yw treuliau a buddiannau adleoli cymwys yn dod i gyfanswm o lai nag £8,000. *Gweler Llyfryn 480 pennod 5*.

Treuliau Dros Nos Achlysurol

Gweler Llyfryn 480 pennod 8 ac atodiad 8 a Llyfryn CWG5(2011) paragraff 31

Terfynau Penodol

Fel arfer mae taliadau treuliau o natur bersonol yn drethadwy. Fodd bynnag, pan wneir taliadau o'r fath i gyflogai sy'n aros oddi cartref dros nos ar fusnes, maent wedi'u heithrio ar yr amod bod y teithio y maent yn berthnasol iddo ei hun yn gymwys ar gyfer rhyddhad ac ar yr amod bod y symiau yr ymdrinnir â hwy o fewn y terfynau penodol. Y terfynau hyn (sy'n cynnwys TAW) yw £5 y noson ar gyfer aros dros nos unrhyw le o fewn y Deyrnas Unedig a £10 y noson ar gyfer aros dros nos y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Os yw treuliau achlysurol yn cynnwys elfennau gwahanol (ee taliad arian parod a buddiant) mae'n rhaid cyfuno'r elfennau gwahanol i benderfynu a ydynt yn uwch na'r terfynau penodol.

Os gwnewch daliadau ar gyfer treuliau dros nos achlysurol sy'n uwch na'r terfynau, mae'r swm cyfan (nid y gormodedd yn unig) yn atebol i dreth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol o dan y rheolau arferol.

Dim ond os yw'r holl neu ran o daliad o'r fath yn cynnwys buddiant y mae'n rhaid i chi gynnwys swm ym mlwch M.

Buddiannau eraill

Nodwch fanylion treuliau a dalwyd wrth ddarparu, neu mewn cysylltiad â darparu, unrhyw fuddiannau neu gyfleusterau ar gyfer y cyfarwyddwr/cyflogai o ba natur bynnag nas datganwyd o dan unrhyw bennawd blaenorol pan oedd y contract i ddarparu'r buddiant rhyngoch chi a'r darparwr.

M Gofal plant a ddarperir gan gyflogwr

Gweler Llyfryn 480 penodau 5 a 6 ac atodiad 11 a Llyfryn CWG5(2011) paragraff 29

Mae'r canlynol wedi'u heithrio rhag treth a CYG ac nid oes angen eu dangos ar ffurflen P11D

- lleoedd sydd ar gael mewn meithrinfa a ddarperir gan y cyflogwr yn adeiladau'r cyflogwr
- gofal plant cymwys arall hyd at £55 yr wythnos
- talebau y gellir eu newid am ofal plant cymwys hyd at £55 yr wythnos.

Dylech nodi ar y P11D

- yr gost cyfan o ddarparu gofal plant anghymwys
- costau darparu gofal plant cymwys sydd dros y £55 yr wythnos sydd wedi'i eithrio. Dangoswch dim ond yr hyn sydd dros £55 yr wythnos.

Treth incwm a delir i'r Swyddfa Gyfrifon

Gweler Llyfryn 480 pennod 19

Nodwch swm y dreth incwm a dalwyd i'r Swyddfa Gyfrifon yn y flwyddyn y methodd y cwmni â didynnu o'r gydnabyddiaeth a dalwyd i gyfarwyddwr, pa flwyddyn bynnag y talwyd y gydnabyddiaeth honno. Peidiwch â chynnwys unrhyw dreth ar daliadau tybiannol yr ydych wedi'u cofnodi eisoes yn Adran B.

N Taliadau treuliau a wnaed i gyfarwyddwr neu gyflogai neu ar ei ran

Cofiwch beidio â chofnodi symiau a gofnodwyd eisoes yn Adran C (Talebau a chardiau credyd).

Lwfans treuliau cyffredinol ar gyfer teithiau busnes

Nodwch swm unrhyw lwfans swm crwn nad ydyw at ddibenion gwesteia yn unig.

Teithio a chynhaliaeth nas cynhwysir mewn lwfansau treuliau cyffredinol

Gweler Llyfryn 480 penodau 8, 9 a 10

Nodwch gyfanswm y treuliau a ad-dalwyd ar docynnau teithio, gwestai, prydau bwyd ac ati gan gynnwys teithio rhwng y cartref a'r gweithle parhaol ar gyfer cyflogaethau yn y DU a chyflogaethau a gyflawnir yn llwyr y tu allan i'r DU (nas cynhwysir uchod).

Gwesteia

Gweler Llyfryn 480 pennod 20

Nodwch yr holl daliadau a wnaed mewn perthynas â gwesteia yn unig gan gynnwys

- swm unrhyw lwfans swm crwn
- symiau a ad-dalwyd
- lwfansau arbennig at ddibenion gwesteia
- symiau a dalwyd i drydydd personau.

Os ydych yn cynnal masnach, busnes, proffesiwn neu alwedigaeth ac yn rhoi taliadau i gyfarwyddwr neu gyflogai at ddibenion gwesteia yn unig, dylid hepgor y taliadau wrth gyfrifo eich atebolrwydd treth.

Sefydliadau Masnachu *ar wahân i gwmnïau treth dunelledd*

Os ydych yn cynnal masnach, busnes, proffesiwn neu alwedigaeth:

- **Ticiwch** y blwch os cafodd **unrhyw daliadau treuliau** eu **hepgor**, neu byddant yn cael eu hepgor, yng nghyfrifiannau treth eich busnes.
- Rhowch **groes** yn y blwch os **na chafodd unrhyw daliadau treuliau** eu **hepgor**, neu na fyddant yn cael eu hepgor, yng nghyfrifiannau treth eich busnes.

Cwmnïau treth dunelledd

Ticiwch y blwch os ydych wedi dewis i elw eich cwmni gael ei gyfrifo yn unol â pharagraff 4, Atodlen 22 Deddf Cyllid 2000.

Ffôn cartref

CWG5(2011) Atodiad 1

Nodwch unrhyw dreuliau a ad-delir mewn cysylltiad â ffôn yng nghartref y cyflogai lle mae'r cyflogai wedi contractio yn uniongyrchol â'r darparwr.

Os mai chi sydd wedi contractio â'r darparwr i ddarparu ffôn cartref i'ch cyflogai, rhowch unrhyw dreuliau a dalwyd gennych yn Adrannau K, L neu M (blwch brown).

Taliadau treuliau adleoli anghymwys eraill.

Gweler Llyfryn 480 pennod 5 ac atodiad 7 a Llyfryn CWG5(2011) paragraff 32

Nodwch unrhyw symiau y dylai'ch cyflogeion fod wedi'u talu mewn cysylltiad ag adleoli, ond y gwnaethoch chi eu talu yn eu lle, nad ydynt yn dreuliau wedi'u heithrio (nas rhestrir yn *Llyfryn 480 atodiad 7*).

Treuliau Dros Nos achlysurol

Gweler Llyfryn 480 pennod 8 ac atodiad 8 a Llyfryn CWG5(2011) paragraff 31

Gweler y blwch o dan 'Treuliau Dros Nos achlysurol' yn Adran M uchod am fanylion terfynau penodol.

Nodwch fanylion taliadau treuliau achlysurol sy'n uwch na'r terfyn penodol sy'n cynnwys taliad arian parod, talebau anariannol neu daliad cerdyn credyd ym mlwch N.

Treuliau eraill

Nodwch fanylion treuliau a dalwyd wrth ddarparu, neu mewn cysylltiad â darparu unrhyw fuddiannau neu gyfleusterau ar gyfer y cyfarwyddwr/cyflogai beth bynnag fo'u natur nas datganwyd o dan unrhyw bennawd blaenorol.